**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus Ar**

# Orchymyn Gwahaniaethu ar Sail Rhyw (Awdurdodau Lleol)(Dyletswyddau Statudol) 2006

Trafododd y Pwyllgor y Gorchymyn uchod yn ei gyfarfod ar 21 Mehefin 2006. Roedd wedi'i glustnodi ar gyfer craffu yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 17 Mai 2006.

Ni chododd yr Aelodau unrhyw gwestiynau ymlaen llaw. Yn y cyfarfod, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Trefnydd ( yn ei swydd fel Gweinidog y Cynulliad dros Gydraddoldeb) i ofyn am esboniad ar rai pwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth. Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â'r canllawiau fydd yn dod gyda'r Gorchymyn a'r broses o fonitro sut y cydymffurfir â'r Gorchymyn a'r modd yr adroddir ar hyn.

Cytunodd yr aelodau'n unfrydol i argymell bod y Cynulliad yn caniatau'r Gorchymyn. Nid oedd yr argymhelliad hwn yn amodol ar yr wybodaeth a geisir oddi wrth y Trefnydd.

**Ann Jones AC**
**Cadeirydd**